Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Betws-y-Coed
# Bro Gethin
# Betws-Y-Coed
# Conwy
# LL24 0BP

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Betws-y-Coed

Lleolir Ysgol Gynradd Betws-y-Coed ar gyrion pentref Betws-y-Coed yn awdurdod Conwy. Mae 27 disgybl ar y gofrestr rhwng 3 ac 11 oed. Addysgir y disgyblion mewn dau ddosbarth cymysg.

Dros dreigl tair blynedd, tua 11% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 18%. Daw oddeutu 14% o ddisgyblion o gartrefi ble siaredir y Gymraeg. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu ac anelir at sicrhau bod pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol wedi adnabod bod gan oddeutu 32% o'i disgyblion anghenion addysgol arbennig sydd yn uwch na'r ganran genedlaethol o 21%.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Hydref 2010. Ers Mawrth 2016, daeth yr ysgol yn rhan o ffederasiwn ffurfiol gydag Ysgol Gynradd Dolwyddelan ac Ysgol Capel Garmon gyda un pennaeth ac un corff llywodraethol. Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Mawrth 2016.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned dysgu gynhwysol lle mae pob disgybl yn cael eu parchu a'u datblygu fel unigolion cyflawn a chyfrifol. Rhoddir pwyslais mawr ar hybu Cymreictod y disgyblion mewn ardal sy'n derbyn nifer helaeth o hwyrddyfodwyr yn rheolaidd.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd mae'r athrawon yn cynllunio profiadau ymarferol a chreadigol mewn cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n datblygu brwdfrydedd a chwilfrydedd ymysg y disgyblion. Trwy weithgareddau cyfoethog, datblygir gwybodaeth y disgyblion am eu hardal leol a Chymru yn llwyddiannus iawn. Mae hyn yn ennyn balchder ymysg y disgyblion o'u Cymreictod a'u diwylliant yn dda.

Penodwyd y pennaeth i'w rôl yn ffurfiol fel pennaeth y ffederasiwn ym mis Mawrth 2016. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer Ysgol Betws-y-Coed a'i lle o fewn y ffederasiwn. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd a gwerthfawr i ryngweithio â disgyblion mewn ystod o weithgareddau. Fodd bynnag, ni chaiff rolau a chyfrifoldebau staff eu diffinio'n ddigon clir ar draws y ffederasiwn er mwyn cynnal a gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau ymhellach.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel er mwyn hyrwyddo cydweithio agos rhwng holl staff y ffederasiwn.

A2 Cryfhau gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant ar draws y ffederasiwn

A3 Sicrhau bod y llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn llawn

A4 Codi safonau darllen ac ysgrifennu Cymraeg

A5 Sicrhau bod adborth athrawon yn galluogi disgyblion i wella eu gwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, sy'n cynnwys disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a hwyrddyfodwyr, yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u man cychwyn. Maent yn cymhwyso eu medrau meddwl a chreadigol mewn ystod eang o feysydd dysgu cyfoethog.

Er bod rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarth derbyn yn dechrau'r ysgol gyda medrau llafar Cymraeg sy'n is na'r safon disgwyliedig, maent yn caffael yr iaith yn fuan ac yn ei defnyddio'n briodol o fewn sefyllfaoedd dysgu. Mae'r staff yn manteisio ar gyfleoedd cyson a gwerthfawr i gyfoethogi iaith lafar sy'n cyfrannu'n dda tuag at fedrau llafar rhan fwyaf y disgyblion. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarth meithrin yn dechrau adnabod ffurf a sŵn llythrennau'n dda. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando ac yn ymateb i gyfarwyddiadau oedolion yn dda. Ar frig y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf yn sgwrsio'n hyderus mewn amrediad o sefyllfaoedd, er enghraifft wrth drafod eu hymweliad â chastell Caernarfon. Mae ychydig o ddisgyblion sydd yn fwy abl yn ymateb yn aeddfed i chwedl Gelert gan fynegi eu teimladau am dristwch y chwedl mewn ffordd aeddfed. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu ar eu medrau llafar yn effeithiol yn y ddwy iaith. Maent yn hyderus iawn wrth sgwrsio am y prosiect cynllunio car, gan drafod y camau cynllunio yn glir, ac wrth drafod eu hymchwiliadau mathemategol.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n addas yn y ddwy iaith. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y maent yn ei ddarllen ac yn defnyddio strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Datblygir medrau darllen llawer o ddisgyblion yn addas yng nghyfnod allweddol 2. Maent yn trafod cynnwys y testun yn hyderus gan gyfeirio at rannau penodol o'r llyfr wrth drafod eu hoff gymeriadau. Er bod gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth addas o'r tesun, mae diffyg rhuglder a mynegiant yn effeithio ar lif ac esmwythder darllen ychydig y disgyblion wrth iddynt ddarllen testun Cymraeg. Mae rhan fwyaf yn defnyddio uwch fedrau darllen a medrau trawsieithu yn llwyddiannus iawn, er enghraifft i gywain gwybodaeth am gyfansoddwyr enwog ac ar gyfer ysgrifennu portread hanesyddol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu syniadau'n synhwyrol mewn gwaith ysgrifenedig gan ddefnyddio brawddegau clir ac atalnodi pwrpasol. Mae ychydig o ddisgyblion sydd yn fwy abl yn amrywio brawddegau, yn defnyddio idiomau ac yn defnyddio ffurf gryno'r ferf yn llwyddiannus i gyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu portread o Tomi'r gath. Datblygir medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn effeithiol yng nghyfnod allweddol 2, ac erbyn diwedd y cyfnod, mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o wahanol ffurfiau ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad papur newydd yn seiliedig ar foddi Cwm Tryweryn yn y Gymraeg a bywgraffiadur o Roald Dahl yn Saesneg. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn atalnodi eu gwaith yn gywir. Fodd bynnag, nid yw'r gystrawen Gymraeg gan ychydig o ddisgyblion yn ddigon cadarn. Nid yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu rhydd ac estynedig yn ddigon rheolaidd mewn gwaith thema.

Mae gan lawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol ymwybyddiaeth gadarn am gysyniadau rhif, siâp a data. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson mewn ystod eang o gyd destunau, er enghraifft wrth gyfrifo cost gwesty a thaith bws o Lanrwst i Landudno ar gyfer ymweliad â chastell Caernarfon. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyfrifo arwynebedd siapiau rheolaidd ac afreolaidd yn gywir ac yn cymhwyso'r medr hyn yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gynllunio gardd i'r ysgol.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhoi cyfarwyddiadau syml i degan electroneg er mwyn ei symud ar hyd llwybr at siapiau penodol yn llwyddiannus. Ar draws y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau yn hyderus yn y meysydd dysgu, er enghraifft wrth ddefnyddio meddalwedd i gofnodi arbrawf trydan ac i greu model wedi' animeiddio o'r ddaear yn troelli o gwmpas yr haul. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn hyderus er mwyn cyflwyno'u gwaith gan osod lluniau a chlipiau fideos ynddynt.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn cymuned dysgu gefnogol a chynhwysol. Mae bron bob un yn dangos balchder yn eu hysgol ac yn datblygu'n ddysgwyr hyderus a chreadigol. Mae dealltwriaeth bron pob disgybl o bwysigrwydd yfed dŵr, bwyta'n iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn gadarn. Caiff hyn ei hatgyfnerthu'n effeithiol mewn ystod addas o weithgareddau corfforol, er enghraifft mewn sesiynau nofio, dawns a chriced. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad ffitrwydd a medrau cymdeithasol rhan fwyaf y disgyblion.

Mae bron pob disgyblion yn ymddwyn yn dda. Maent yn gwrtais tuag at ei gilydd, ac yn dangos parch at staff ac ymwelwyr. Mae bron pob un yn ofalgar o'i gilydd ac yn dangos parch tuag at eraill mewn gwersi, ac ar fuarth yr ysgol. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda iawn o sut i gadw'n ddiogel ar y we. Maent yn trafod pwysigrwydd peidio â rhannu cyfrineiriau a pheryglon datgelu gwybodaeth bersonol yn aeddfed. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud penderfyniadau doeth.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu trwy gynnig syniadau i'w cynnwys yn y themâu tymhorol. Maent yn mynegi syniadau dilys am beth i ddysgu, er mwyn datblygu eu dealltwriaeth ymhellach a chymryd rôl weithredol yn eu dysgu. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at eu brwdfrydedd tuag at waith ac at ymddygiad cadarnhaol.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn barod i helpu eu cyd-ddisgyblion ac yn cefnogi elusennau lleol ac ehangach yn gydwybodol. Mae gan y cyngor weithdrefnau addas ar gyfer rhannu a datblygu syniadau ac maent yn cyfrannu'n briodol at fywyd yr ysgol. Fodd bynnag, cyfyng yw rôl y disgyblion wrth gyfrannu at faterion yn ymwneud â gwella agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae agweddau rhan fwyaf y disgyblion tuag at eu dysgu eu hunain yn gadarn. Maent yn dangos cymhelliant yn eu gwaith ac yn ymroi i'w tasgau'n ddiwyd. Mae rhan fwyaf

y disgyblion yn gweithio'n frwdfrydig ac yn dangos nad oes ofn mentro a gwneud camgymeriadau arnynt.  Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu cymuned dysgu effeithiol a hyderus.

Trwy gwricwlwm cyffrous yr ysgol, mae gwybodaeth rhan fwyaf y disgyblion am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth byd eang yn gadarn, er enghraifft wrth i ddisgyblion ieuengaf greu model o gastell o ddeunyddiau ailgylchu, a disgyblion cyfnod allweddol 2 yn trafod effeithiau teiffŵn Jebi yn Japan.

Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol ac, o ganlyniad, mae canran presenoldeb yr ysgol yn gadarn iawn.

**Addysgu a phrofiadau dysgu:  Da**

Mae athrawon ar draws ysgolion y ffederasiwn wrthi'n addasu eu chynlluniau gwaith i ymateb i ofynion y cwricwlwm newydd.  Mae hyn yn cychwyn cael effaith yng ngwaith y disgyblion wrth iddynt ddyfalbarhau a dangos gwydnwch yn eu tasgau.  Mae'r cydweithio effeithiol sy'n digwydd yn rheolaidd rhwng disgyblion cyfnod allweddol 2 o fewn y ffederasiwn i ddatblygu medrau penodol, wedi cyfrannu at greu ethos o gymuned glòs o ysgolion o fewn y ffederasiwn.  Mae hyn wedi cael effaith lwyddiannus ar fedrau rhifedd, TGCh a chymdeithasol y disgyblion.

Un o gryfderau'r addysgu yw'r ffordd mae'r athrawon yn cynllunio profiadau ymarferol a chreadigol mewn cwricwlwm eang a chytbwys sy'n datblygu brwdfrydedd a chwilfrydedd ymysg y disgyblion.  Atgyfnerthir y profiadau cyfoethog hyn yn aml yn yr ardal leol, er enghraifft wrth i ddisgyblion y cyfnod sylfaen fynd o amgylch y pentref i edrych ar eilrifau ac odrifau ar y tai.  Caiff y cysyniad hwn ei ddatblygu ymhellach yn yr ardal allanol trwy ystod o weithgareddau ymarferol a heriol.  Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n gadarn a gwneir defnydd effeithiol o adnoddau i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu.  Mae athrawon yn cynnwys syniadau'r disgyblion yn llwyddiannus wrth gynllunio tasgau yn yr ardaloedd dysgu.  Mae hyn yn sicrhau bod gan y disgyblion berchnogaeth dda o'u dysgu.

Mae ansawdd yr addysgu'n gadarn.  Mae perthynas waith gynhyrchiol rhwng y staff a'r disgyblion sy'n sicrhau ymrwymiad y disgyblion yn eu dysgu.  Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau meddwl yn rheolaidd mewn ystod eang o gyd-destunau, er enghraifft mewn gweithgareddau llythrennedd, mathemategol, gwyddonol a chelf.  Mae'r athrawon wedi mabwysiadu nifer o strategaethau cadarn i hybu'r Gymraeg i'w disgyblion, er enghraifft drwy wrando ar gerddoriaeth Gymraeg, gwersi dawnsio gwerin a gwaith drama.  Mae staff yn modelu iaith lafar dda ac mae hyn oll yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llafar y disgyblion. Mewn gwersi, mae cyflwyniadau athrawon yn ddiddorol a chyflymder y wers yn fywiog.  Mae'r athrawon yn annog disgyblion i feddwl drostynt eu hunain, i ddyfalbarhau wrth wynebu anawsterau, i fentro a pheidio â bod ofn gwneud camgymeriadau.  Enghraifft dda o hyn yw disgyblion ieuengaf yn arbrofi gyda gwahanol ddeunyddiau ar gyfer adeiladu cartref i'r tri mochyn bach.  O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol, hyderus ac uchelgeisiol. Mae athrawon yn holi'n fedrus gan sicrhau bod y tasgau'n ymateb yn briodol i lefel her yr unigolion.  Fodd bynnag, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae tueddiad i athrawon arwain gormod ar y gweithgareddau sy'n cyfyngu ar allu'r disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Ar y cyfan, mae athrawon yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig priodol er mwyn i ddisgyblion wybod pa mor dda y maent yn cyflawni. Fodd bynnag, nid yw'r adborth bob amser yn rhoi digon o arweiniad i ddisgyblion ddeall sut i wella eu gwaith. O ganlyniad, nid oes gan ychydig o ddisgyblion ddealltwriaeth ddigon cadarn o'r camau nesaf yn eu dysgu.

Defnyddir cyfoeth yr ardal leol yn llwyddiannus fel sbardun diddorol i werthfawrogi'r ardal ac i ddysgu am chwedlau Cymru o fewn eu milltir sgwâr, er enghraifft chwedl yr Afanc a chwedl Gelert. Mae hyn yn ymestyn gwybodaeth y disgyblion am Gymru a'r ardal leol yn llwyddiannus, ynghyd â chodi balchder ymysg y disgyblion o'u Cymreictod a'u diwylliant.

Trwy waith thema, datblygir medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a chreadigrwydd y disgyblion yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae disgyblion yn cymhwyso'r medrau hyn yn hyderus mewn ystod eang o weithgareddau. Enghraifft nodedig o hyn yw'r ffordd mae athrawon yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o ffracsiynau wrth drafod gwerth nodau mewn gwers cerdd ac wrth esbonio ffrithiant mewn gwers celf. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn gadarn ac mae'r athrawon yn dechrau ymgorffori disgwyliadau'r fframwaith cymhwysedd digidol ar draws y meysydd dysgu yn effeithiol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a chynhwysol sy'n darparu gofal, cymorth ac arweiniad cadarn i'w disgyblion. Mae trefniadau'r ysgol yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion, gan gynnwys hwyrddyfodiaid, yn ymgartrefu'n fuan ac yn teimlo'n rhan o gymuned dysgu effeithiol yr ysgol. Mae hyn yn gryfder nodedig.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig o safon uchel ac yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau dysgu. Mae'r staff yn darparu cynhaliaeth effeithiol iddynt, sy'n eu cefnogi'n bwrpasol mewn gweithgareddau llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at eu hagweddau tuag at eu dysgu. Mae cynlluniau unigol disgyblion o ansawdd da ac yn cynnwys targedau gwella penodol ar eu cyfer. Mae'r rhaglenni ymyrraeth, ynghyd â'r ddarpariaeth ychwanegol oddi ar y safle, yn bwrpasol ac yn bodloni gofynion bron pob disgybl. Mae'r rhain yn sicrhau eu bod yn derbyn y lefel berthnasol o gefnogaeth. Enghraifft o hyn yw'r defnydd da a wneir o adnodd yr uned iaith ac uned arbenigol sy'n datblygu medrau llythrennedd y disgyblion ac yn hybu ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol iawn. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos gofalgar a theuluol sy'n bodoli o fewn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion, sy'n mesur eu cyrhaeddiad yn erbyn eu targedau gwella yn effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth o'r broses hon yn llwyddiannus er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol i ddatblygu eu safonau a'u lles. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar waith y disgyblion ac mae'r athrawon yn sicrhau bod eu tasgau yn herio'r disgyblion hyd eithaf eu gallu.

Mae pwyslais amlwg ac effeithiol ar ddatblygu gwerthoedd disgyblion. Atgyfnerthir hyn yn llwyddiannus drwy weithgareddau sy'n datblygu meddylfryd addysgol disgyblion yn rheolaidd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les emosiynol y disgyblion ar draws yr ysgol.

Caiff agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion eu hyrwyddo’n llwyddiannus drwy’r cwricwlwm, gwasanaethau cyd-addoli rheolaidd a’r celfyddydau creadigol.

Mae gan yr ysgol berthynas dda gyda rhieni. Mae’r ysgol yn weithgar wrth ymdrechu i godi statws y Gymraeg yn y cartref yn ogystal ag yn yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau ymrwymiad y rhieni yn addysg eu plant wrth iddynt gefnogi eu plant i ddatblygu i fod yn ddysgwyr dwyieithog.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn sicrhau cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion feithrin dealltwriaeth gynyddol o bwysigrwydd cynaliadwyedd. Enghraifft o hyn yw’r uned waith sy’n egluro pwysigrwydd gwarchod cefnforoedd rhag gwastraff plastig. Mae’r ysgol yn cynllunio gweithgareddau i godi arian tuag at elusennau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth y disgyblion yn llwyddiannus am bwysigrwydd eu cyfraniadau unigol i greu cymdeithas ofalgar.

Mae’r athrawon yn cynllunio gweithgareddau buddiol i ddatblygu ymwybyddiaeth a disgyblion o hanes ac etifeddiaeth Cymru. Trwy astudio hanes lleol ac ymweld â chestyll cyfagos, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o hanes yr ardal ac o ddiwylliant Cymru. Trwy gymryd rhan mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymwneud â’r celfyddydau creadigol yn rheolaidd.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n llwyddiannus ag asiantaethau allanol fel y gwasanaethau cymdeithasol a’r heddlu. Mae hyn yn effeithio’n gadarnhaol ar allu’r disgyblion i gadw’n ddiogel. Er enghraifft, maent yn deall bod dyletswydd arnynt i leihau unrhyw risg yn eu bywydau, fel cadw’n ddiogel wrth groesi’r ffordd a’r peryglon sy’n bodoli ar-lein.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy’n seiliedig ar sicrhau bod pob disgybl yn datblygu i’w lawn botensial mewn amgylchedd ddysgu hapus, diogel ac ysgogol. Gwneir hyn drwy gyflwyno pob disgybl i etifeddiaeth Gymraeg a’u datblygu yn aelodau llawn o gymdeithas. Mae’r weledigaeth ar gyfer y ffederasiwn yn cael ei rhannu’n effeithiol gyda’r disgyblion, y staff ac aelodau’r corff llywodraethol. Nodwedd gadarnhaol yw fod pob ysgol unigol wedi cadw ei naws unigryw ei hun.

Mae’r staff wedi dechrau cefnogi’r pennaeth drwy gymryd cyfrifoldeb am ddatblygu elfennau o fywyd a gwaith yr ysgol yn effeithiol. Er enghraifft, mae’r trefniadau a’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig nawr yn gyson ar draws ysgolion y ffederasiwn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau’r disgyblion perthnasol. Yn ogystal, daw staff y cyfnod sylfaen at ei gilydd i gydgynllunio gweithgareddau er mwyn rhannu arfer dda ac i sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth yn llwyddiannus. Fodd bynnag, er bod y ffederasiwn yn bodoli ers tair blynedd, nid yw’r arferion hyn wedi sefydlu’n llawn eto.

Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth gadarn o'u rolau o fewn eu hysgolion unigol. Fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth drylwyr na chytûn am rolau arweinwyr a'u cyfrifoldebau addysgu a dysgu ar draws y ffederasiwn. Golyga hyn nad yw dyletswyddau yn cael eu diwallu'n deg ac nid yw llinellau atebolrwydd yn ddigon cadarn. O ganlyniad, nid yw'r strwythur arweinyddiaeth a staffio presennol yn ddigon cynaliadwy i gael ei lawn effaith ar gyfer cynnal a gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau ymhellach.

Mae'r pennaeth yn darparu cyfleoedd defnyddiol i'r holl staff adrodd ar gryfderau ac agweddau sydd angen eu cryfhau o fewn yr ysgol. Ar y cyfan, mae hyn yn arf effeithiol i adnabod yr angen am welliant ar draws y ffederasiwn. Er enghraifft, wrth ddadansoddi sylwadau'r staff, adnabuwyd bod angen cysoni profiadau TGCh y disgyblion. Trefnodd arweinwyr fod disgyblion cyfnod allweddol 2 i gyd yn ymweld ag Ysgol Betws-Y-Coed yn wythnosol ar gyfer gwersi TGCh. O ganlyniad, mae safonau'r disgyblion wedi codi ar draws y ffederasiwn.

Fodd bynnag, cyfyng yw'r ystod o weithgareddau monitro, gwerthuso a sicrhau ansawdd a gynhelir yn rheolaidd. O ganlyniad, nid yw'r prosesau'n ddigon grymus i fynd i'r afael yn llwyddiannus â'r meysydd sydd angen eu gwella bob tro, er enghraifft datblygu safon ysgrifennu Cymraeg disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol holl staff yr ysgol yn effeithiol. Maent yn darparu hyfforddiant rheolaidd i'r staff, sy'n cael effaith fuddiol ar y ddarpariaeth ac ar safonau disgyblion. Er enghraifft, mae hyfforddiant am sut i hybu medrau meddwl disgyblion yn Saesneg wedi arwain at godi hyder a safonau llafar disgyblion yn ogystal â'u medrau meddwl. Mae'r hyfforddiant yn aml yn gysylltiedig â blaenoriaethau ysgol gyfan.

Ers iddynt sefydlu fel un corff unedig, mae'r llywodraethwyr wedi bod yn gefnogol iawn i'r ffederasiwn, ac mae ganddynt afael dda ar safonau a chyflawniad disgyblion ac â sefyllfa gyllidol yr ysgolion. Maent yn ymweld â'r ysgolion yn rheolaidd ac yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol gan y pennaeth am fywyd a gwaith y ffederasiwn, sy'n atgyfnerthu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda. Maent yn adnabod manteision bod mewn ffederasiwn, gan wneud penderfyniadau ar gyfer y tair ysgol, er enghraifft wrth iddynt fynd i'r afael â sefyllfa ariannol heriol. Maent yn gweld y potensial buddiol sydd i rannu arbenigeddau staff ar draws y ffederasiwn yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'r llywodraethwyr hyd yma wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol i'r rhieni.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'r ysgol yn effeithiol, gyda phenderfyniadau gwariant yn cael eu cynnwys mewn targedau ar gyfer gwella yn briodol. At ei gilydd, mae arweinwyr yn darparu adnoddau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion disgyblion yn synhwyrol. Mae arweinwyr yn rheoli ardaloedd allanol y cyfnod sylfaen yn effeithiol i wella profiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol er mwyn darparu cymorth ychwanegol i weithio gyda dysgwyr bregus. Mae hyn yn cael effaith bositif ar sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion hyn yn cyflawni'n dda.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/11/2019